


P4 o'r copi hwn gosodwyd dalen sy'n ddi-brint heblaw am nodyn perchnogaeth a argraffwyd ar un tu ohoni. Sylwer mai wedi ei argraffu ar y tudalen y mae'r nodyn ac mai nid label argraffedig wedi ei lynu ar dudalen lân a geir yma. Mae labeli perchnogaeth argraffedig wedi goroesi o hanner cyntaf y 18 ganrif er bod rhai Cymraeg o'r fath yn bur brin. Ni welais, fodd bynnag, achos arall o ddynodi perchnogaeth fel a wnaed yma. Dyma



Wynebdddalen: *Dictionarium Duplex* gan John Davies, Mallwyd (1567-1644).

gynnwys y nodyn, 'Llyfr Dafydd Williams, o Fodeulwyn. Awst the 8th. 1718.' Awgryma'r ffaith fod y dyddiad yn rhannol yn Saesneg i'r geiriau gael eu hargraffu gan berson nad oedd yn gyfarwydd â'r Gymraeg. Gallai hynny fod wedi digwydd yn Nulyn, cyrchfan i William Bulkeley ac eraill o Fôn yn y cyfnod hwn. Ar ôl dyddiau David Williams bu'r llyfr yn eiddo i Henry Hughes, rheithor Llangefni.

Goroesodd deunydd printiedig llai sylweddol hefyd o gasgliad David Williams. Ym *Mhiser Alice uch Rees* (gweler uchod) ceir pedair baled Saesneg o weisg yn Llundain. Maent heb ddyddiad o unrhyw fath ond gellir eu dyddio i ddiwedd yr 17 ganrif neu ddechrau y ganrif ddilynol. Cawn dystiolaeth yma fod deunydd poblogaidd byrhoedlog o'r math hwn yn cyrraedd pellafoedd Môn o Lundain ar ddechrau'r 18 ganrif a chyn hynny. Ymddengys hefyd mai David Williams oedd perchennog cyfres o lyfyrnau Saesneg gan John Arbuthnot, 1667-1735, a ddaeth i'r Llyfrgell Genedlaethol o Fôn rai blynyddoedd yn ôl. Gweithiau dychanol yw'r rhain gyda

nodyn perchnogaeth ar ddau ohonynt. Gellir bod yn ffyddiog mai'r un llaw sydd yma ag a geir ym *Mhiser Alice uch Rees*. Yr enw 'Davidh Williams' yn unig geir ar *John Bull in his senses...* The third edition. London, 1712 ond ar *John Bull still in his senses ...* The third edition. London, 1712 ceir y geiriau, 'David Williams owner of this pamphlet 1740.' Nid y Sgotyn Arbuthnot a ddyfeisiodd yr enw John Bull ond ei waith ef a sefydlodd y cymeriad fel symbol o Loegr a'r Sais.

Mab David Williams Bodelwyn oedd William Davies, gŵr â pheth cyfoeth, a ddewisodd dreulio'i fywyd fel prif was y Brynddu gan gartrefu yn y plas. Pan fu farw'n ddibriad yn 1752, gadawodd y swm o £120 er lles tlodion plwyfi Llanbadrig a Llanfechell. Nid oes dystiolaeth fod William Davies yn gasglwr llyfrau print a llawysgrif nac yn brydydd fel ei dad ond mae ei enw i'w weld ar restr tanysgrifwyr un o lyfrau print y dydd. *Plans of harbours* Lewis Morris yw hwnnw.

Michael Prichard, garddwr Brynddu

Un a fu ym mhlith cydnabod William Bulkeley am gyfnod llawer byrrach na'r rheithor a gŵr Bodelwyn oedd Michael Prichard, 1709-1733, garddwr y Brynddu o 1731 hyd ei farw. Disgrifia'r *Bywgraffiadur* Michael Prichard, brodor o Lanllyfni, fel 'bardd medrus.' Ni chlywn ddim amdano yn y dyddiadur gan ei fod yn ei fedd yn Llanfechell cyn agor hwnnw. Ni welais ychwaith ei enw mewn rhestrau tanysgrifwyr ond nid syndod hynny o gofio am ei farw ifanc a'r ffaith bod rhestrau o'r fath yn brin iawn yn y cyfnod cyn 1733.

Casglwyr llyfrau llawysgrif a phrint ar raddfa fechan oedd William Bulkeley'r Brynddu, Richard Bulkeley y rheithor a David Williams o Fodelwyn. Y ffaith bod tri chymydog mor eithriadol agos yn rhannu'r un diddordebau sydd ychydig yn anghyffredin. Caniataodd goroesiad llawysgrifau a llythyrau'r Morrisiaid a dyddiadur William Bulkeley, heb anghofio bodolaeth rhestrau tanysgrifwyr mewn llyfrau print, i ni gael cipolwg bychan ar y diddordebau hynny.

Ffynonellau

Y gweithiau a enwyd yn y testun ynghyd â'r canlynol:

1. Dew Roberts, Barbara. *Mr. Bulkeley and the pirate ...*1936. Seiliwyd ar ddyddiadur William Bulkeley.
2. Evans, G. Nesta. *Religion and politics in mid-eighteenth century Anglesey ...* 1953. Seiliwyd i raddau helaeth ar

- ddyddiadur William Bulkeley.
3. Evans, G. Nesta. *Social life in mid-eighteenth century Anglesey...*1936. Seiliwyd i raddau helaeth ar ddyddiadur William Bulkeley.
4. Richards, Emlyn. *Bywyd gŵr bonheddig ...* 2002. Seiliwyd ar ddyddiadur William Bulkeley.
5. Wiliam, Dafydd Wyn. *Lewis Morris: deugain mlynedd cyntaf ei oes 1700/1-42...* 1997. Ceir yma benodau gwerthfawr ar brydyddu a chasglu a chopio llawysgrifau ym Môn yn hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif.
6. Davies, J. H. (gol.) *The Letters of Lewis, Richard, William and John Morris of Anglesey* (Morrisiaid Môn), Aberystwyth, 1907-09.
7. Owen, Hugh, (gol.) *Additional letters of the Morrisies of Anglesey*. London, 1947-49.

Cywiriadau i ran gyntaf erthygl Charles Parry ar William Bulkeley yn Y Casglwr, Haf, 2005

1. Y golofn gyntaf, tud. 15, ychydig mwy na hanner y ffordd i lawr. Dylai phanelu'r parlwyr yn 1749" ddarllen fel hyn : a phanelu'r parlwyr yn 1740.
2. Top yr ail golofn, tud.15. Dylai "dyddiedig y laf. 1760" ddarllen fel hyn: dyddiedig y laf o Fai. 1760.
3. Top yr ail golofn, tud.16. Dylai'r frawddeg sydd yn cychwyn "Ni wyddom nemor ddim am faint..." ddarllen fel hyn: Ni wyddom nemor ddim am faint ei gasgliad o lyfrau llawysgrif a phrintiedig ond mae'n annhebygol iddo fod yn un sylweddol.
4. Yr ail golofn, tud. 16, mwy na hanner y ffordd i lawr. Dylai 'Bardd of Snowdon' ddarllen fel hyn: 'Bard of Snowdon'.
5. Top y drydedd golofn, tud.16. Dylai'r frawddeg sydd yn cychwyn "Mae mewn dwy gyfrol..." ddarllen fel hyn: Mae mewn dwy gyfrol, y gyntaf yn ymestyn o'r 30ain o Fawrth, 1734 hyd yr 8fed o Fehefin, 1743 a'r ail o'r laf o Awst, 1747 hyd yr 28ain o Fedi, 1760.



Atgof o Hen hysbyseb